www.mantellgwynedd.com

MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 40
Chwefror 2008

CYNNWYS

Newyddion 2
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 4
Cymunedau'n Gyntaf 5
Plant a Phobl Ifanc 5
Digwyddiadau a Hyfforddiant 6
Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd 7
Grantiau 8

Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

Mantell Gwynedd
yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

Cronfa Grant Peilot Newydd 'Ewch Amdani'

Mae Mantell Gwynedd mewn partneriaeth arloesol â Chyngor Chwaraeon Cymru wedi sefydlu cronfa beilot newydd gwerth £15,000 am flwyddyn o'r enw **'Ewch Amdani'**. Mae'r grant ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar hyd a lled Gwynedd sydd ddim â chysylltiad uniongyrchol â chwaraeon neu gadw'n heini. Bydd y gronfa yma yn galluogi grwpiau i wneud cais am arian refeniw a/neu gyfalaf hyd at uchafswm o £1,000 tuag at gostau i gynnal gweithgareddau neu brynu offer.

Meddai Bethan Russell-Owen, Prif Swyddog, Mantell Gwynedd :

"Dwi'n gweld hwn fel cynllun cyffrous i fudiadau sydd ddim fel arfer yn ymddiddori llawer mewn ymarfer corff, i fedru cychwyn gweithgaredd newydd. Mae pawb â diddordeb y dyddiau yma mewn ceisio cadw'n iach, a dwi'n siwr y bydd yna groeso gan fudiadau fel Merched y Wawr, Ffermwyr Ifanc ac adrannau'r Urdd i fynd ati i gynnwys rhywbeth diddorol, newydd yn eu rhaglen weithgareddau blynyddol. O ran Mantell Gwynedd, rydyn ni'n croesawu'r cyfle ac yn edrych ymlaen i ddatblygu cyd-weithio agosach gyda'r Cyngor Chwaraeon Cymru".

Bydd y gronfa ar agor i grwpiau gyflwyno cais ar unrhyw adeg o'r flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2008.

Am fwy o fanylion, pecyn cais neu i drafod syniad am brosiect newydd y gall eich cymuned elwa ohono, cysylltwch â Delyth Vaughan, Swyddog Grantiau a Chefnogaeth, Mantell Gwynedd ar 01286 672 626 neu delyth@mantellgwynedd.com neu www.mantellgwynedd.com

sports council wales

cyngor chwaraeon cymru

Swyddfa Gofrestredig: 24-26 Stryd Fawr • CAERNARFON • LL55 1RH. (01286 672626 • 7: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. (01341 422575 • 7: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwyddyn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

Nodyn gan y Prif Swyddog

Croeso unwaith eto i rifyn arall o Mantell.

Gyda llawer o ddigwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol ar y gweill 'rwyf am fanteisio ar y cyfle i'ch cyfeirio at rai digwyddiadau a materion o bwys i ni yn y Trydydd Sector yng Ngwynedd.

'Rwyf eisoes wedi sôn yn Mantell am Gynllun Gofodol Cymru sef y cynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r cynllun yn ymwneud â datblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y wlad am yr ugain mlynedd nesaf ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer sut y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gwario'u harian yn ystod y cyfnod yma. Mae'r Sector wedi bod gyda chynrychiolaeth ar Grŵp Swyddogion y Cynllun Gofodol ar gyfer y Canolbarth a'r Gogledd Orllewin (mae Gwynedd yn syrthio i'r ddwy ardal) ac wedi bod yn bwydo'ch pryderon a'ch sylwadau i'r broses. Bu nifer ohonoch yn y sesiynau ymgynghori a fu llynedd a bellach mae gennych eto y cyfle dros yr wythnosau nesaf i gynnig eich mewnbwn a'ch sylwadau i'r ymgynghori. Mae'r **cyfnod ymgynghori** diweddaraf yma yn rhedeg am 12 wythnos o **Ionawr 31 hyd Ebrill 24** a byddwn yn croesawu eich sylwadau a'ch mewnbwn. Cewch fwy o fanylion am y Cynllun Gofodol ar wefan y Cynulliad, ac ar wefan Mantell fe welwch ein mewnbwn i'r broses hyd yn hyn. Mae yna bryderon gwirioneddol am ardaloedd gwledig Llyn, Eifionydd a Meirionnŷdd gyda'r datblygiadau dan sylw, ac mae Mantell Gwynedd wedi bod yn flaengar yn datgan sylwadau a phryderon y Trydydd Sector. **Mae digwyddiad ymgynghori allweddol bwysig yn Venue Cymru Llandudno ar Fawrth 4ydd 2008** a byddwn yn gofyn i unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â mi am ragor o fanylion neu fynd ar ein gwefan **www.mantellgwynedd.com** ble cewch fanylion am sut i gofrestru i gael lle yn y digwyddiad. Mae yna griw dethol ohonom o'r Trydydd Sector yng Ngwynedd wedi buddsoddi dipyn o amser yn y maes yma a byddwn yn croesawu mewnbwn gan unrhyw rai ohonoch sydd â diddordeb mewn cyfrannu i'r trafodaethau. Ni allaf or bwysleisio pwysigrwydd datblygiad y Cynllun Gofodol yn ein Sir.

Yn ail, hoffwn dynnu eich sylw at y ddogfen 'Y Trydydd Dimensiwn' sydd wedi ei lansio Ionawr 2008 gan y Cynulliad. Dyma'r cynllun strategol ar gyfer Cynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad. Mae'n strategaeth sy'n adnabod nifer o gamau i Lywodraeth Y Cynulliad eu cymryd ac yn pwysleisio gwerth gwirfoddoli, cryfhau cymunedau, llais y dinesydd, mentrau cymdeithasol a chyd-destun y Sector mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â'r berthynas rhwng y Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus. Mae copïau o'r ddogfen ar gael yn ein swyddfeydd a byddwn yn eich annog i gael golwg arni. Mae ei chynnwys yn bwysig dros ben i ni yn y Trydydd Sector ac mae ynddi Gynllun Gweithredu cynhwysfawr ar gyfer 2008-2011.

Mater arall o gryn bwysigrwydd yng Ngwynedd yw datblygiad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae'r corff yma yn rhan o fframwaith ehangach 'Gwynedd ar y Cyd' a bydd yn canolbwyntio'i egni ar yr elfennau sydd o'r pwys strategol mwyaf i Wynedd. Prif Weithredwyr ac Uwch Swyddogion asiantaethau mwyaf dylanwadol Gwynedd sydd yn aelodau o'r Bwrdd - ceir 8 o Brif Weithredwyr ac un Uwch Was Sifil o'r Cynulliad. 'Rwy'n cynrychioli'r Trydydd Sector ar y Bwrdd yma. Mae dwy brif flaenoriaeth wedi eu hadnabod gan y Bwrdd sef Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd ac Ail Fodelu Gwasanaethau Gofal Iechyd yn y Gymuned. Mae Byrddau Prosiect wedi eu sefydlu ar gyfer y ddau faes yma a byddwn yn gofyn i chi gysylltu â mi os oes diddordeb gennych mewn cyfrannu sylwadau at y gwaith. Mae manylion y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar fin ymddangos ar ein gwefan felly cadwch olwg dros y dyddiau nesaf.

A dyna'r cyfan am y rhifyn yma. Cadwch olwg ar ein gwefan am fanylion unrhyw ddatblygiadau pwysig.

Tan Tro Nesa,

Bethan

Gwirfoddolwraig ifanc o Wynedd yn lleisio ei barn

Ar 21ain o Dachwedd 2007 cafodd Erin Mansell fel cynrychiolwraig ifanc o'r sector wirfoddol yng Ngwynedd gyfle i fynd i Gynhadledd Blynyddol Draig Ffynci.

Mae Draig Ffynci yn gwneud yn siwr fod barn plant a phobl ifanc yn cael ei glywed yn lleol a chenedlaethol, yn enwedig gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd oddeutu 100 o bobl ifanc yng nghyfarfod blynyddol Draig Ffynci, yno yn cynrychioli fforymau lleol, y sector gwirfoddol a phobl ifanc yn cynrychioli diddordebau arbennig.

Yn ystod y diwrnod cyntaf rhoddwyd cyflwyniad i Draig Ffynci a phwrpas y Gynhadledd.

Bae Caerdydd oedd y lleoliad ar gyfer yr ail ddiwrnod. Croesawyd y bobl ifanc gan Brif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol, Rhodri Morgan. Yn dilyn ei araith, cynhaliwyd gweithdai Dadl Cwestiynau Agored gyda Gweinidogion a Swyddogion y Cynulliad.

Treuliwyd gweddill y prynhawn gyda busnes swyddogol y Gynhadledd sef pleidleisio ar themâu ar gyfer 2008/09. Y 2 thema a ddewiswyd oedd 'Pleidleisio yn 16' a'r 'Amgylchedd'.

Roedd y Gynhadledd yn llwyddiannus iawn a Erin wedi mwynhau cynrychioli y sector gwirfoddol.

"Rydw i rwan yn barod i glywed barn gwirfoddolwyr ifanc Gwynedd ar y themâu 'Pleidleisio yn 16' a'r 'Amgylchedd' ac unrhyw fater arall sydd yn bwysig iddyn nhw."

Ydych chi yn berson ifanc fyddai'n hoffi rhoi eich barn ymlaen i Erin? Mae'n bosib gwneud hyn drwy e-bostio gwirfoddoli@mantellgwynedd.com, neu ffonio Mirain Roberts (01286) 672626.



Yn y llun: Erin Mansell a chynrychiolydd arall o Wynedd, Alan Tomos.

I lawrlwytho copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ewch i'r adran Newyddion ar wefan Mantell Gwynedd - **www.mantellgwynedd.com**

Ymgynghoriad Cynllun Gofodol Cymru

Ddiwedd Ionawr gwelir lansio ymgynghoriad 3 mis ar Gynllun Gofodol Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol. Mae'r ddogfen yn gosod gweledigaeth ynghylch sut y dylai pob rhan o Gymru ddatblygu'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol dros yr 20 mlynedd nesaf a bydd yn arwain y ffordd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwario'i harian yn y blynyddoedd i ddod.

Mae Mantell Gwynedd wedi datgan yn gyson eu pryder am ardaloedd mwyaf gwledig Gwynedd yn ogystal â diffyg eglurder o rôl yr economi gymdeithasol o fewn y strategaeth

Cynhelir digwyddiadau ym mhob un o ranbarthau'r Cynllun Gofodol cyn y Pasg. Ar gyfer yr ardal yma mae'r digwyddiad ar y 4ydd o Fawrth yn Venue Cymru, Llandudno. Gwybodaeth ar gael ar y we ar http://new.wales.gov.uk/about/strategy/spatial/news/consultation/?lang=cy

BBC Cymru Wales

Aelodau o'r Fforwm

Fforwm Ymgynghorol Elusennau BBC Cymru

Mae Fforwm Ymgynghorol Elusennau BBC Cymru Wales yn cynnwys arbenigwyr annibynnol o du allan i'r BBC gyda phrofiad helaeth o'r sector gwirfoddol yng Nghymru sy'n cynghori ac yn cefnogi Rheolwyr y BBC.

A oes gennych chi gefndir ym maes gweithredu cymunedol neu ym maes elusennau? Neu efallai fod gennych arbenigedd mewn materion sy'n effeithio ar blant neu bobl ifanc a fydd o help i ni wrth ddosbarthu grantiau BBC Plant Mewn Angen yng Nghymru?:

Mae'r Fforwm angen ymrwymiad o tua 18 diwrnod y flwyddyn. Mae aelodaeth o'r Fforwm yn wirfoddol ond ad-delir unrhyw dreuliau. Rydym yn chwilio am geisiadau ar gyfer Aelodau'r Fforwm. Dylid derbyn ceisiadau erbyn 17 Ebrill 2008.

Am ffurflen gais a disgrifiad swydd, anfonwch amlen fawr wedi ei hunangyfeirio gyda stamp arni at: Swyddfa Elusennau BBC Cymru, Ystafell M1010, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.

Ffôn-testun 029 2032 2094
e-bost: elusennau@bbc.co.uk neu gweler: www.bbc.co.uk/elusennau

BBC Plant Mewn Angen Children in Need

Yma i Chi Dolgellau

Mae'r BBC, 'Yma i Chi', yn mynd i dargedu Dolgellau o'r 1af o Fawrth hyd ddiwedd y mis. Bydd llawer iawn o raglenni'n canolbwyntio ar y Dref a'r ardal. Un o'r digwyddiadau fydd sesiwn wybodaeth am arian prosiect Plant Mewn Angen ar Fawrth 13eg yn Nhŷ Siamas, Neuadd Idris, Sgwar Eldon, Dolgellau, 10.00y.b. - 7.00p.m.

Croeso i chi alw i mewn am sgwrs, neu wneud apwyntiad ymlaen llaw **029 2032 2383**.

Atal ● Amddiffyn ● Ymateb

YDYCH CHI'N DDIOGEL?

Gall Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru roi archwiliad diogelwch tân i chi yn RHAD AC AM DDIM a gosod larymau mwg AM DDIM lle bo'r angen.

RHADFFÔN

0800 169 1234

Gall yr alwad yma achub eich bywyd!

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **28ain Mawrth, 2008**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau: **beryl@mantellgwynedd.com** ● **Ffôn: 01341 422575**

ANGEN PENODI AELOD O'R SECTOR WIRFODDOL AR GYNGOR IECHYD CYMUNED GOGLEDD GWYNEDD

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd angen penodi cynrychiolydd o'r sector gwirfoddol yn aelod ar y Cyngor o Ebrill 2008 ymlaen.

Mae aelodau'n gwasanaethu am **bedair** blynedd gyda'r cyfle am **bedair** blynedd arall.

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn gorff annibynnol, statudol sydd yn chwarae rhan allweddol mewn gadael i reolwyr gwasanaethau iechyd wybod beth mae pobl ei eisiau a sut y gall pethau wella.

Bydd hyfforddiant ar gael. Telir costau teithio a chynhaliaeth.

Os oes gan unrhyw un diddordeb gwneud cais ac os oes ganddynt sgiliau gwrando ar eraill a rhannu barn ac yn fodlon cyfrannu tua 3 diwrnod y mis fe hoffai'r CIC glywed ganddynt.

Am sgwrs a mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Prif Swyddog:

Mr Glanville Owen, 4 Lôn Bupur, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RG

Ffôn: 01286 674961

glanville@nwwaleschc.org.uk

www.patienthelp.wales.nhs.uk/gogleddgwynedd

Gwasanaeth Cruse yn ymestyn

Bydd Gofal Mewn Galar Cruse yn cynnal sesiynau galw draw yn Ystafell 5 Canolfan Lôn Abaty, Bangor pob 3ydd dydd Mercher o'r mis rhwng 10:15 y bore a 12:15 y prynhawn. Os ydych wedi cael profedigaeth neu os ydych yn gwybod am unrhyw un sydd mewn galar galwch draw am sgwrs efo Trish. Gall Cruse hefyd gynnig cymorth lle rhagwelir y bydd rhywun mewn galar. Bydd taflenni gwybodaeth Cruse a lluniaeth ysgafn ar gael am ddim.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch: 08702 402 758

PENODI COMISIYNYDD POBL HŶN

Mae Ruth Marks wedi ei hapwyntio'n Gomisiynydd Pobl Hŷn i Gymru. Fe fydd hi'n dechrau yn ei swydd yn Ebrill 2008. Mae Ruth ar hyn o bryd yn gyfarwyddwr RNIB yng Nghymru.

Help Llaw i Gomisiynwyr

Mae Diabetes UK, ynghyd ag Asthma UK a Sefydliad Prydeinig y Galon wedi lansio pecyn cymorth ar lein i bobl sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r wefan yn cynnwys llyfrgell electronig o ddogfennau polisi, cyngor ymarferol ar gomisiynu a chyfle i holi arbenigwyr ac ymuno mewn trafodaethau ar lein. Mae'r llyfrgell electronig o ddogfennau polisi'n rhoi sylw arbennig i gyd-destun polisi yng Nghymru. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.commissioningforthelongterm.org.uk**

Cyfarfod Nesaf Rhwydwaith, Iechyd, Gofal a Lles

Dydd Gwener, Mawrth 14 - Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog 10:15am-12:30pm

Dyma'n fras beth fydd cynnwys y cyfarfod:

- **Cynlluniau Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd 2008/09** - Gwen Carrington, Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd
- **Cynlluniau Bwrdd Iechyd Gwynedd** - Grace Lewis Parry a Clare Jones
- Bydd **Alun Ffred Jones a'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas (AC Cymru)** hefyd yn cymryd rhan yn y cyfarfod
- **Grwpiau trafod**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sioned Larsen ar: **01286 672626** neu **sioned@mantellgwynedd.com**

CANOLFAN ADNODDAU TAN Y MAEN BLAENAU FFESTINIOG

Gwefan Newydd Canolfan Tan y Maen, Blaenau Ffestiniog

www.tanymaen.co.uk

CYMUNEDAU NESAF

Fel mae'r saith Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf yng Ngwynedd yn ymwybodol mae newidiadau yn digwydd yn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf o 2009 ymlaen.

I gychwyn ar y gwaith yma derbyniwyd adroddiad gan Y Cynulliad sef 'Cymunedau Nesaf - Ymgynghoriad ar ddyfodol y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf'. I gyd-fynd â'r adroddiad mae'r Cynulliad yn trefnu cyfarfodydd ymgynghori gyda'r Partneriaethau. Ond, gan mai dim ond un cyfarfod sydd yn cael ei drefnu yn y gogledd penderfynodd Swyddogion Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf, Mantell Gwynedd mewn cydweithrediad ac Eirian Pierce Jones o Rwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf i gynnal dau gyfarfod ymgynghori i Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf yng Ngwynedd. Cynhaliwyd y cyntaf ym Mhorthmadog nos Fercher 6ed Chwefror gyda thua 20 o bobl yn mynychu. Cafwyd trafodaeth fywiog ynglyn â'r adroddiad ac oblyĝiadau'r newidiadau i Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf.

Oherwydd bod yr agenda yn un eithaf 'trwm' ar gyfer y noson ni lwyddwyd i fynd drwy'r holl gwestiynau sydd angen ymateb iddynt yn yr adroddiad. Penderfynwyd yn unfrydol felly i gynnal ail sesiwn ym Mhorthmadog ar nos Lun 17eg Fawrth 2008 i gychwyn am 7.00y.h.

Mae Mantell Gwynedd hefyd wedi trefnu sesiwn i drafod yr adroddiad yng Ngogledd y Sir nos Fercher 13eg Chwefror 2008 yn Galeri, Caernarfon - cewch fwy am y noson honno yn rhifyn nesaf o Mantell.

Ar ddiwedd yr ymgynghoriad bydd Mair a Carys yn creu adroddiad i adborthi i'r Cynulliad a byddwn yn sicrhau y bydd pawb a fynychodd yn cael copi.

Os ydych am weld dogfen ymgynghori Y Cynulliad gallwch ddilyn y linc yma:
http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/consultation/communitiesnext/?lang=en

Plant a Phobl Ifanc

Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

Bydd copïau o'r Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf a byddent yn weithredol ar draws Cymru **o EBRILL 1af, 2008 ymlaen.** Mi fydd Mantell Gwynedd yn derbyn 450 copi o'r Canllawiau gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant Gwynedd i fudiadau'r **Trydydd Sector** sy'n gweithio yn y maes **plant a phobl ifanc** yng Ngwynedd, a bydd y rhain ar gael yn **rhad ac am ddim!**

Os ydych eisoes wedi derbyn llythyr gan Mantell Gwynedd yn eich hysbysu o'r Canllawiau newydd, yna byddwch yn awtomatig yn derbyn **un copi di-dâl**. Dylech wneud cais drwy lythyr neu ebost fodd bynnag i dderbyn copi/au ychwanegol. **Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i fudiadau bach y sir**.

Ar y llaw arall, os ydych chi'n fudiad Trydydd Sector sy'n gweithio yn y maes ac **heb** dderbyn llythyr gan Mantell Gwynedd, cysylltwch ar unwaith ag Ann Vaughan Jones (Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc) i gofrestru manylion eich mudiad. Ffôn: **01286 672626**, e-bost: **annvaughan@mantellgwynedd.com**

GRŴP FFOCWS TRYDYDD SECTOR

Yn dilyn cais gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd, trefnwyd Grŵp Ffocws i rai o fudiadau'r Trydydd Sector ar brynhawn yr 8ed o Ionawr yn Eglwys y Santes Fair yn Nhremadog. Pwrpas y sesiwn oedd rhoi'r cyfle i fudiadau'r Sector sy'n gweithio ym maes cymorth ieuenctid, i gyflwyno sylwadau ar effeithiolrwydd trefniadau Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid yn y sir ynghŷd ag adnabod sut y gellir cryfhau'r trefniadau hynny i'r dyfodol.

Rhan o broses y Bartneriaeth o baratoi hunanasesiad ar gyfer Arolwg Estyn mis Mawrth eleni ydoedd a dywedodd Hawis Jones, Rheolwr Gweithredol Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd:

"Trefnwyd Grŵp Ffocws llwyddiannus gan yr Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc a bu'n gymorth mawr i adnabod materion penodol, megis gwella cyfathrebu, sydd angen sylw o safbwynt datblygu'r berthynas rhwng y Bartneriaeth Strategol a'r Sector Gwirfoddol i'r dyfodol".

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd a rhoi o'u hamser prin ar gymaint o fyr rybudd!

Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd

Cynhelir Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd yng Nghwesty'r Meifod, Bontnewydd ar **ddydd Mawrth 15fed Ebrill 2008.**
Y siaradwr gwadd fydd **Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru**. Am fwy o fanylion cysylltwch âg Audra Roberts neu Ann Vaughan Jones yn Mantell Gwynedd ar: **01286 672626** neu ebostiwch **fforwmplant@mantellgwynedd.co**

Hyfforddiant Mantell i ddod:

MAWRTH 2008

Paratoi Ceisiadau Ariannol
Mawrth 14eg 2008
10.00y.b. - 4.00y.p.
Gwesty'r Queens, Blaenau Ffestiniog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

EBRILL 2008

Gwneud Cynllun Busnes
Ebrill 1af 2008
10.00y.b. - 4.00y.p.
Royal Victoria, Llanberis

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr
Ebrill 16eg 2008
10.00y.b. - 3.30y.p.
Royal Victoria, Llanberis

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Paratoi ar Gyfer Gwirfoddolwyr (2 ddiwrnod)
29ain a 30ain Ebrill 2008
10.00y.b. - 4.00y.p.
Royal Sportsman, Porthmadog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

MEHEFIN 2008

Datblygu ar Sail Asedau
Mehefin 3ydd 2008
10.00y.b. - 4.00y.p.
Tŷ Siamas, Dolgellau

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant neu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant mae Mantell Gwynedd yn ei gynnig cysylltwch â: Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu,
Y Lawnt, Dolgellau, Gwynedd LL40 1SB. Ffôn: 01341 422575 neu dolgellau@mantellgwynedd.com

Hyfforddiant Eraill:

PLANT YNG NGHYMRU

Cyflwyniad i Hawliau a Chyfranogiad Plant
Mawrth 14eg 2008
Eglwys y Santes Fair (Cartrefi Cymru), Tremadog.

Cost: £98 - Aelodau Plant yng Nghymru
£120 - Heb fod yn Aelod

Mae'r cwrs cyflwyniadol poblogaidd hwn wedi'i anelu at ymarferwyr a rheolwyr sy'n dymuno diweddaru eu gwybodaeth o'r agenda 'Hawliau' sy'n datblygu yng Nghymru yn ogystal ag ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gymharol newydd i'r maes hwn.

Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y cwrs yn derbyn pecyn gwybodaeth y medrir ei ddefnyddio i gefnogi eu dysgu ar ôl dychwelyd i'r gweithle.

Cyflwynir y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byw Gyda Rhai yn eu Harddegau
6ed a 7fed Mawrth 2008
CGGC, Swyddfa Gogledd Cymru, Y Rhyl

Cost: £190 - Aelodau Plant yng Nghymru
£230 - Heb fod yn Aelod

Mae'r cwrs deuddydd hwn yn rhoi'r sgiliau i gyfranogwyr gyflenwi'r rhaglen 'Byw gyda Rhai yn eu Harddegau' sy'n canolbwyntio ar roi gwell dealltwriaeth i rieni o ddatblygiad pobl ifanc yn eu harddegau strategaethau ar gyfer ymdopi gyda'r ymddygiad cysylltiedig.

I gael gwybodaeth bellach am y cyrsiau uchod neu i lawrlwytho ffurflen archebu ewch i wefan Plant yng Nhymru:
www.plantyngnghymru.org.uk

CYSWLLT TEULU

Gweithdy Rheoli Cwsg
Mawrth 12ed 2008 - Interchange, Hen Golwyn
Ebrill 23ain 2008 - Canolfan y Dderwen, Rhyl
10.00y.b. - 2.30y.p.
Cost: Am ddim - ad-daliad blaenadal o £10 i sicrhau eich lle yn unig.

Heather Mcleod fydd yn arwain y gweithdy a bydd yn son am reolaeth cwsg, ateb cwestiynnau a rhoi ymatebion ymarferol.
Bydd y gweithdy yn cael ei gynnal yn Saesneg gyda siaradwyr Cymraeg yn bresenol.

Hyfforddiant Makaton
14eg a 15ed Ebrill 2008 - Interchange, Hen Golwyn
9.30y.b. - 2.30y.p.
Cost: Am ddim - ad-daliad blaenadal o £10 i sicrhau eich lle yn unig.

Mae'r cwrs hwn wedi ei anelu at rieni plant sy'n defnyddio Makaton. Mae Makaton yn raglen iaith unigryw y gellir ei defnyddio fel dull o addysgu sgiliau cyfathrebu, iaith a llythrennedd.

Am fwy o wybodaeth ynglyn â'r cyrsiau uchod neu i gofrestru eich lle, cysylltwch â Jill Bartlett, Swyddog Datblygu Cyswllt Teulu. Ffôn: 01248 670965 neu e-bostiwch: jill.bartlett@cafamily.org.uk

Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Gwynedd

Sesiwn wybodaeth gan Uned Cofnodion Troseddol (CGGC)

Cynhaliwyd cyfarfod o Rwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Gwynedd yn y Ganolfan ym Mhorthmadog ar 29ain o Ionawr pan ddaeth Emma Leighton Jones o CGGC i roi gwybodaeth am Uned Cofnodion Troseddol y CGGC. Dechreuodd drwy sôn am y system bresennol, ac am y problemau sydd gyda'r drefn ar hyn o bryd. Aeth ymlaen i sôn am y gwasanaeth newydd ar gyfer archwilio cefndir sef Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA).

Pwrpas y corff newydd yw helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phobl agored i niwed.

Bydd y corff newydd yn gyfrifol am sefydlu a chadw dwy restr o bobl sydd wedi eu gwahardd rhag gweithio gyda:

- phlant
- oedolion agored i niwed.

Does dim gwahaniaeth ym mha sector y mae'r gweithgaredd yn digwydd, neu p'un a yw unigolyn yn staff cyflogedig neu'n wirfoddolwr, bydd yn drosedd i fudiad gyflogi unrhyw un:

- sydd ar restr ISA o bobl sydd wedi eu gwahardd
- sydd angen archwiliad i'w cefndir, a'r cyflogwr heb wirio eu statws.

Os caiff yr amserlen arfaethedig ei gwireddu, bydd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol yn weithredol o Hydref 2008. Am ragor o wybodaeth ymwelwch â'r gwefannau canlynol:-

www.dfes.gov.uk/consultations
wcva-cru.org.uk/cggc-uct.org.uk
www.isa-gov.org.uk
www.everychildmatters.gov.uk/vettingandbarring

Dyddiad i'r dyddiadur

Cynhelir y cyfarfod nesaf o ***Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Gwynedd*** yn Adeilad **Technium Cast, Parc Menai, Bangor** am 1.30pm **dydd Mercher, 14eg o Fai 2008**. Mark Restall, pennaeth gwybodaeth 'Volunteering England' fydd yn siarad am 'Gwirfoddolwyr a'r Gyfraith'.

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Cynllun arbennig ar gyfer annog pobl ifanc rhwng 16 a 24 i wirfoddoli, ac i roi cydnabyddiaeth iddynt am eu cyfraniad yw rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Mae tystysgrif ar gael i nodi'r 50 awr a'r 100 awr cyntaf o wirfoddoli, a bydd person ifanc sydd yn cwblhau 200 awr yn derbyn Gwobr Rhagoriaeth wedi'i llofnodi gan Brif Weinidog Cymru.

Dyma Tomos Ifan Puw Williams - y person ifanc diweddaraf o Wynedd i ennill 'Gwobr Rhagoriaeth' dan gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm. Disgybl chweched dosbarth yn Ysgol Syr Hugh Owen yw Ifan. Rhwng Hydref 2006 a Rhagfyr 2007, llwyddodd i wirfoddoli am dros 220 awr, a bu'n brofiad buddiol iawn iddo. Bu'n gwirfoddoli gyda Antur Waunfawr, Ysgol Pendalar, Y Gymdeithas Strôc a Galeri Caernarfon.

Llongyfarchiadau, a dymuniadau gorau iddo i'r dyfodol!

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru **2008**

A ydych chi'n adnabod person arbennig sy'n eich ysbrydoli chi gyda'r hyn y maent yn ei wneud fel gwirfoddolwr, neu efallai eich bod yn gwybod am grŵp neu fudiad sy'n enghraifft wych o sut y gall gwirfoddolwyr wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Os felly - dyma eich cyfle chi i'w henwebu ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2008, a thrwy hynny roi ychydig o gydnabyddiaeth iddynt am eu gwaith caled, a hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r mudiad/grwp sydd yn elwa^o'u gwasanaeth.

Dyma'r bumed flwyddyn i'r wobr arbennig yma gael ei chynnig, ac mae unigolion a grwpiau o Wynedd wedi cyrraedd y brig yn genedlaethol yn y gorffennol. Braf fyddai cael buddugwyr o Wynedd eto eleni.

Felly…meddyliwch am ychydig, ond peidiwch ag oedi oherwydd rhaid i'r enwebiadau gyrraedd CGGC **(www.cggc.org.uk)**, Caerdydd erbyn 28ain Mawrth 2008.

Ffurflenni enwebu ar gael o Ganolfan Gwirfoddoli Gwynedd.

CYFLE I HYRWYDDO EICH MUDIAD

Cofiwch fod Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn cynnig cyfle i fudiadau i gael 'benthyg' ffenestr swyddfa'r Ganolfan yng Nghaernarfon er mwyn cael arddangos gwybodaeth am eu gwaith / digwyddiadau arbennig am gyfnod o hyd at bedair wythnos ar y tro.

Am ragor o wybodaeth, neu gyngor ar unrhyw fater yn ymwneud â gwirfoddoli, cysylltwch â:
Ffôn: 01286 672626 / 01341 422575 neu e-bost: gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

Sefydliad Esmée Fairbairn

Mae'r Sefydliad yn disgwyl ariannu amrediad ehangach o waith nag o'r blaen, er mai diwylliant, addysg, yr amgylchedd a datblygiad cymdeithasol fydd eu meysydd craidd o hyd.

Fel rhan o'r dull newydd hwn o ariannu maent hefyd yn rhedeg nifer o ffrydiau ariannu mwy penodol. Y tri cyntaf fydd: bioamrywiaeth, casgliadau amgueddfeydd a threftadaeth, ac ymagweddau newydd tuag at ddysgu. Am fwy o wybodaeth www.esmeefairbairn.org.uk

Ymddiriedolaeth Elusennol -Yapp

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn darparu grantiau i elusennau bach sy'n gweithio gyda phobl hyn, plant, pobl anabl neu grwpiau difreintiedig. Mae grantiau hyd at £3,000 ar gael i elusennau cofrestredig sydd wedi bod yn weithredol ers o leiaf tair blynedd ac sydd â gwariant blynyddol o dan £60,000. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn ariannu prosiectau addysg a dysgu, yn enwedig os ydynt yn cynnwys pobl sydd yn ddifreintiedig yn addysgol. Gwahoddir ceisiadau erbyn Mai 26ain yn barod erbyn cyfarfod yr Ymddiriedolaeth ym mis Gorffennaf.

www.yappcharitabletrust.org.uk

Cist Gwynedd 2008/09 - Cronfa Datblygu Giwrfoddol.

Mae'r Cronfa Datblygu Gwirfoddol yn gronfa refeniw a chyfalaf tua £240,000 ar gyfer 2008-09. Disgwylir i'r dyrianadau gefnogi cynlluniau sydd yn cryfhau ac yn datblygu grwpiau a mentrau'r sector wirfoddol. Nod y gronfa yw:

- gwella cyfleoedd cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol a hamdden.
- gwella rhagolygon cyflogaeth, menter a medrau'r bobl leol, yn enwedig pobl ifanc a phobl o dan anfantais a hyrwyddo cyfle cyfartal.
- gwella'r amgylchedd, gwneud defnydd effeithiol o dir ac adeiladau.
- diogelwch cymunedol, atal troseddau a lleihau ofn troseddau.
- hybu gwarchod,cyfoethogi a gwella'r amgylchedd/lleihau llygredd.
- hyrwyddo a chefnogi gweithredu gwirfoddol a gwirfoddoli
- ennyn cydweithio'n lleol a chodi balchder a hyder lleol
- cyfrannu tuag at leihau amddifadedd yn ardaloedd difreintiedig.

Dyddiad cau Mawrth 31ain 2008 a Mehefin 30ain 2008 (os bydd arian ar ôl i'w glustnodi).

Cyswllt - 01286 679153 neu e-bostio heatherwilliams@gwynedd.gov.uk

Rhaglen Gydweithredol Drawsffiniol Cymru-Iwerddon ERDF

Rhaglen Gydweithredol Drawsffiniol Cymru-Iwerddon ERDF

Mae Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) Cymru-Iwerddon, sy'n werth €52 miliwn wedi'i lawnsio. Bydd mudiadau sy'n gweithio'n Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych yn gymwys i wneud cais am arian i weithio mewn partneriaeth â mudiadau sy'n gweithio yn Siroedd Dulyn, Meath, Wicklow, Kildare, Wexford, Waterford, Kilkenny, Carlow a De Tipperary yn Iwerddon.

Mae un rownd eisoes wedi bod ond bydd cyfle eto yn ystod y flwyddyn. Ariennir mentrau Cymreig-Gwyddelig mewn meysydd megis datblygu busnesau mwy arloesol, datblygu sgiliau a hyfforddiant, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, datblygu cynaliadwy a datblygu cymunedol.

Bydd y Prosiect Rhwydweithio Cymru-Iwerddon 2 (WIN 2) yn rhedeg ochr yn ochr â'r rhaglen a'i nod yw annog ffurfio partneriaethau a all arwain at gyflwyno ceisiadau i Raglen Cymru-Iwerddon trwy ddarparu cymorth ariannol tuag at gostau teithio a chynhaliaeth i fudiadau cymwys. Gwybodaeth: **www.ireland-wales.eu**